

## **Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher, 22 Mawrth 2017**

**10.30 - 1.10**

**Prifysgol Abertawe**

### **Yn bresennol:**

#### **Cyfarwyddwyr:**

Andrew Green (Cadeirydd)  
William Callaway, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academiaidd / Deon y Coleg  
Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)

#### **Sylwedyddion:**

Ifan James, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCMC)  
Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)

#### **Swyddogion:**

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr  
Catherine Rees, Ysgrifennydd  
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd  
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd  
Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd  
Suzanne Lewis, Uwch Swyddog Gweinyddiaeth

#### **Ymddiheuriadau:**

Fflur Elin, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr  
Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
<b>1. Croeso a chyflwyniad</b>	<p>1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd.</p> <p>1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.</p> <p>1.3 Nodwyd ymddiswyddiad swyddogol Geraint James a diolchwyd iddo am ei gyfraniad allweddol at waith y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risgers sefydlu'r Coleg yn 2011.</p> <p>1.4 Nodwyd nad oedd cworwm yn bodoli tan i Gwilym Dyfri Jones gyrraedd y cyfarfod ac fe gadarnhawyd na ellid gwneud unrhyw benderfyniadau tan hynny.</p>		
<b>2. Datganiadau o ddiddordeb</b>	<p>2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.</p> <p>2.2 Datganodd Dr Gwyn Lewis ddiddordeb yn Eitem 7 – Adroddiad y Prif Weithredwr am ei fod yn gweithredu fel ymgynghorydd i'r Coleg ym maes Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon.</p>		
<b>3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfodydd 23 Tachwedd 2016 a 31 Ionawr 2017</b>	<p>3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2016 a 31 Ionawr 2017.</p>		

<p><b>4. Gohebiaeth</b></p>	<p>4.1 Adroddodd y Prif Weithredwr ei fod wedi gohebu â Kirsty Williams AC ar ddau fater (a godwyd yn y Bwrdd):</p> <p><b>4.1.1 Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon</b> Derbyniwyd cadarnhad y byddai ystyriaethau cyfrwng Cymraeg yn rhan ganolog o'r broses i bennu canolfannau ar gyfer lleoli hyfforddiant yn y dyfodol.</p> <p><b>4.1.2. Adnoddau safon uwch ac adnoddau yn gyffredinol ar gyfer y sector ôl-16.</b> Adroddwyd y byddai Uwch Gynhadledd yn cael ei chynnal ar 27 Ebrill 2017 i drafod mater adnoddau yn gyffredinol.</p> <p>4.2 Adroddodd y Prif Weithredwr ei fod wedi gohebu â Vaughan Gething AC ynghylch trefniadau sefydlu Addysg Iechyd Cymru gan gyfleu consyrn a fynegwyd yng nghyfarfod y Bwrdd am ddiffyg cyfeiriad ac ystyriaethau i'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Nodwyd bod ymateb wedi dod i law a bod trafodaethau yn parhau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.</p>		
<p><b>5. Materion y Cadeirydd</b></p>	<p>5.1 Adroddodd y Cadeirydd y byddai ganddo sylwadau i'w gwneud ar ddiwedd y cyfarfod ac y byddai diweddariad ar ddatblygiadau diweddar yn cael ei ddarparu yn adroddiad y Prif Weithredwr.</p>		
<p><b>6. Materion cyfansoddiadol</b></p>	<p><b>Adroddiad ar gyfarfod y Llys, 8 Mawrth 2017</b></p> <p>6.1 Derbyniwyd adroddiad llafar ar gyfarfod y Llys, 8 Mawrth 2017. Nodwyd bod Cyfrifon Blynnyddol y</p>		

	<p>Coleg a'r Adroddiad Blynyddol wedi'u derbyn gan yr aelodau. Cafwyd cyflwyniad ar ddatblygiadau'r Coleg gan y Prif Weithredwr a chyflwyniad ar y Cynllun Academaidd gan Dr Dafydd Trystan yng nghyfarfod y Llys, a nodwyd bod yr Aelodau wedi gwerthfawrogi'r diweddariad ac wedi cymryd rhan mewn trafodaeth fywiog o ganlyniad.</p> <p><b>Diweddariad ar benodi Cyfarwyddwr</b></p> <p>6.2 Nodwyd bod Geraint James wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad fel Cyfarwyddwr. Nodwyd y byddai ychydig o oedi cyn penodi cyfarwyddwr yn ei le, er mwyn i'r Cadeirydd newydd fod yn rhan o'r broses ac am fod sgiliau Geraint James mor arbenigol, yn benodol yn ymwneud â chyllid. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor Penodiadau yn cwrdd i drafod hyn a chytuno ar y camau nesaf.</p> <p>6.3 Nodwyd bod tymor yr Athro Hywel Thomas yn dod i ben ond bod posibilrwydd y byddai yn barod i barhau am gyfnod pellach ond nid am dymor llawn arall.</p> <p><b>Aelodaeth y Pwyllgor Penodiadau</b></p> <p>6.4 Nodwyd bod tymor yr Athro Gareth Roberts yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod yma. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo ymestyn tymor yr Athro Roberts hyd ddiwedd Gorffennaf 2017 gyda'r bwriad o benodi olynnydd i gychwyn ar 1 Awst.</p>		
<p><b>7. Adroddiad y Prif Weithredwr</b></p>	<p>7.1 Derbyniwyd crynodeb llafar gan y Prif Weithredwr o'r adroddiad ysgrifenedig oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw.</p>		

	<p>7.2 Cadarnhawyd bod y trefniadau ar gyfer trosglwyddo grant blynyddol y Coleg wedi eu cwblhau. O 1 Ebrill 2017 ymlaen, bydd y Coleg yn derbyn grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na thrwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.</p> <p>7.3 Adroddwyd bod y cyllid a ddarperir ar gyfer ysgoloriaethau yn parhau i gael ei ddarparu drwy'r Cyngor Cyllido yn 2017/18. Nodwyd y bydd y Coleg yn parhau i gydweithio gyda'r Cyngor ar ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys cefnogi'r Strategaeth Addysg Uwch newydd sydd yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd.</p> <p>7.4 Adroddwyd y byddai archwilwyr mewnol y Coleg yn darparu sicrwydd bod eglurder ar y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2017 pan fydd y cyfnod cyllido drwy'r Cyngor Cyllido yn dod i ben.</p> <p>7.5 Adroddwyd bod Cytundeb Cyllido ar gyfer 2017/18 wedi ei lofnodi yn cychwyn ar 1 Ebrill 2017. Nodwyd y byddai'r flwyddyn nesaf yn flwyddyn bontio i raddau helaeth gyda mwyafrif y cyllid wedi ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau sydd eisoes wedi eu cynllunio.</p> <p>7.6 Nodwyd bod y Grŵp Tasg a Gorffen sydd yn adolygu elfennau o weithgareddau'r Coleg yn parhau â'u gwaith er nad oes cadarnhad ar hyn o bryd o'r amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiad terfynol. Bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn eu cyfarfod eto ar 25 Ebrill 2017.</p> <p>7.7 Adroddwyd bod lansiad y Cynllun Academaidd newydd yn y Senedd ar 31 Ionawr 2017 wedi bod yn</p>		
--	---	--	--

	<p>llwyddiannus iawn, gydag aelodau o bob plaid wleidyddol yn bresennol. Mae'r Coleg wedi cynnal cyfarfodydd cynllunio gyda phob prifysgol er mwyn cytuno ar y pynciau hynny sydd yn gymwys i dderbyn grantiau pynciol yn 2017/18.</p> <p>7.8 Nodwyd bod y Coleg wedi derbyn grant ychwanegol o £50,000 ar gyfer darnau penodol o waith mewn perthynas â'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith Gymraeg i Athrawon. Nodwyd bod cyfarfod yn cael ei gynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar 3 Ebrill 2017 i drafod y camau nesaf o ran datblygiad y Dystysgrif.</p> <p>7.9 Datganodd Dr Hefin Jones ei ddiolch ar ran aelodau'r Bwrdd i'r Prif Weithredwr a staff y Coleg, gan nodi eu bod yn sylweddoli maint y gwaith sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni.</p>		
<p><b>8. Materion Staffio</b></p>	<p>8.1 Adroddwyd bod Arwel Lloyd (Swyddog Datblygu Academaidd) wedi ymadael â'r Coleg a bod y swydd wedi ei hadolygu cyn penodi olynydd. Mae penodiad wedi ei wneud ond heb ei gadarnhau eto.</p> <p>8.2 Adroddwyd bod Eiliw Baines Roberts wedi ei phenodi yn Swyddog Datblygu Marchnata a Chyfathrebu, yn bennaf i weithio yng Ngogledd Cymru.</p> <p>8.3 Adroddwyd bod Lisa Haf (Swyddog Datblygu) yn ymadael â'r Coleg yn fuan. Bwriedir adolygu'r swydd cyn penodi olynydd.</p>		

	<p>8.4 Adroddwyd bod Nia Brown ar gyfnod estynedig o absenoldeb salwch yn sgil derbyn llawdriniaeth a dymunwyd yn dda iddi gan y Bwrdd.</p> <p>8.5 Nodwyd bod y Coleg wedi llogi dwy ystafell newydd gan y brifysgol ym Mangor gan fod tri aelod o staff yn gweithio yno bellach.</p>		
<p><b>9. Materion Cyllid</b></p>	<p>9.1 Adroddwyd bod y Coleg wedi derbyn llythyr yn cadarnhau grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grant ar gyfer y flwyddyn yn cyfateb yn fras i argymhelliad Adolygiad Diamond.</p> <p>9.2 Cafodd y gyllideb ar gyfer 2017/18 ei chadarnhau a'i chymeradwyo yn unfrydol gan y Bwrdd. Cadarnhawyd y byddai'r arian wrth gefn ar 1 Ebrill 2017, sef diwedd y cyfnod cyllido drwy'r Cyngor Cyllido, ar yr un lefel ag yr oedd ar 31 Gorffennaf 2016. Darparwyd taenlen i CCAUC yn manylu ar y taliadau a fydd wedi eu cyflawni erbyn 31 Mawrth 2017.</p> <p>9.3 Nodwyd y byddai archwilwyr mewnol y Coleg yn gwirio yn ystod mis Ebrill bod yr hyn a gytunwyd ei wneud wedi digwydd, er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyfarwyddwyr, y Cyngor Cyllido ac i Lywodraeth Cymru. Adroddwyd bod sefyllfa cyllido'r Coleg yn sefydlog.</p> <p>9.4 Diolchwyd i swyddogion y Cyngor Cyllido am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod sefydlu ac yn ystod chwe mlynedd gyntaf bodolaeth y Coleg.</p>		

<p><b>10. Pwyllgor Archwilio a Risg</b></p>	<p>10.1 Ategwyd diolch i Geraint James am ei waith fel Cyfarwyddwr ac fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. Nodwyd bod y Coleg wedi elwa yn sylweddol o'i sgiliau arbenigol ariannol ac yn ddyledus iddo am ei rôl yn gosod seiliau cadarn.</p> <p>10.2 Nodwyd bod y Gofrestr Risg wedi ei hadolygu yn sgil trafodaethau'r Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <p>10.3 Adroddwyd nad oedd gan yr archwilwyr allanol unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau eleni.</p> <p>10.4 Cafwyd adroddiad ar gynnydd gan yr archwilwyr mewnol ar eu rhaglen waith. Nodwyd nad oedd yn glir eto pa drefniadau archwilio mewnol fyddai yn ofynnol gan y Llywodraeth.</p> <p>10.5 Adroddwyd bod y Coleg wedi adolygu trefniadau bancio. Nodwyd penderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r swyddogion y byddai'r Coleg yn aros gyda'r banc presennol, sef Barclays. Nodwyd y byddai'r Coleg yn gweithio gyda'r banc am flwyddyn i wella eu gwasanaeth Cymraeg. Yn amodol ar lwyddiant y flwyddyn gyntaf, byddai'r Coleg yn cadarnhau cytundeb am bum mlynedd.</p> <p>10.6 Adroddwyd bod y Rheolwr Cyfathrebu wedi mynychu digwyddiad Seren sef prosiect sy'n annog myfyrwyr i astudio ym mrifysgolion Grŵp Russell. Cafwyd trafodaeth am y posibilrwydd o gael digwyddiad tebyg ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn astudio addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>		
---	---	--	--



	<p>10.7 Cyfeiriwyd at y drafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio a Risg ar y Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu (FfRhD). Adroddwyd bod y Coleg a'r Cyngor Cyllido wedi cyflwyno awgrymiadau i HEFCE mewn perthynas â'r FfRhD. O ganlyniad, bydd addysgu cyfrwng Cymraeg yn un o'r ystyriaethau yn y FfRhD ond mai myfyrwyr sydd yn astudio pum credyd fydd yn cael eu hystyried. Mae'r Coleg a'r Cyngor Cyllido wedi awgrymu bod myfyrwyr sydd yn astudio o leiaf 40 credyd yn cael eu hystyried hefyd. Nodwyd nad oedd 2 brifysgol yn bwriadu cymryd rhan yn y FfRhD. Cymeradwywyd y camau yr oedd swyddogion y Coleg wedi eu cymryd mewn perthynas â hyn.</p>		
<p><b>11. Canghennau'r Coleg</b></p>	<p>11.1 Adroddodd y Cofrestrydd ar y gwaith a gyflawnwyd gan yr archwilwyr mewnol mewn perthynas â'r canghennau. Roedd yr adroddiad terfynol wedi adnabod rhai materion i'w hystyried ymhellach.</p> <p>11.2 Cyflwynodd y Prif Weithredwr bapur yn amlinellu camau y bwriedir eu cymryd gan y Coleg i adolygu trefniadau cyllido'r canghennau. Tra yn cydnabod y byddai gwahaniaethau yn parhau rhwng y canghennau y mae yn hanfodol sefydlu gwaelodlin o weithgareddau a threfniadau y byddai pob cangen yn eu dilyn.</p> <p>11.3 Nodwyd bod £406,103 (yn fras 10% o gyllideb y Coleg) yn cael ei neilltuo i'r canghennau ac felly mae angen sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd mewn perthynas â'r gwariant hwn.</p>		

	<p>11.4 Derbyniwyd yr argymhellion a nodwyd yn y papur yn unfrydol.</p> <p>11.5 Cytunwyd y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r canghennau yn ystod mis Mai gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion i gyfarfod nesaf y Bwrdd. O'u derbyn byddai'r materion hynny yn cael eu cynnwys yn y llythyron grant ar gyfer y canghennau yn 2017/18.</p> <p>11.6 Cytunwyd ymhellach y byddai'r Coleg yn gohebu gyda'r canghennau er mwyn sefydlu trefniadau parhaol ar gyfer y model darlithwyr cysylltiol. Cytunwyd i'r argymhelliad bod modd i bob darlithydd sydd yn aelod o'r Coleg i gael ei hystyried yn ddarlithydd cysylltiol. Bydd hyn yn allweddol er mwyn cynnal y cysyniad o gymuned academiaidd wedi i'r Cynllun Staffio Academiaidd ddod i ben yn ei ffurf bresennol.</p>		
<p>Cyrhaeddodd Gwilym Dyfri Jones yn ystod Eitem 11 gan sicrhau cworwm i'r cyfarfod o'r pwynt hwnnw.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Cyfarwyddwyr.</li> <li>• Derbyniwyd cofnodion cyfarfod arbennig Bwrdd Cyfarwyddwyr.</li> <li>• Cytunwyd i ymestyn cyfnod yr Athro Gareth Roberts i ddiwedd Gorffennaf 2017 (Pwyllgor Penodiadau).</li> <li>• Derbyniwyd llythyr grant Llywodraeth Cymru.</li> <li>• Derbyniwyd cofnodion Pwyllgor Archwilio a Risg.</li> </ul>			
<p><b>12. Cynllunio Academiaidd</b></p>	<p>12.1 Cyflwynodd Dr Dylan Phillips yr argymhellion ar gyfer dyraniadau grantiau pynciol ar gyfer 2017/18. Derbyniwyd yr argymhellion yn unfrydol.</p> <p>12.2 Yn dilyn trafodaeth gyda Phennaeth Coleg y Dyniaethau a'r Celfyddydau ym Mhrifysgol Bangor nodwyd bod dyraniad Prifysgol Bangor ar gyfer</p>		

	<p>meysydd o fewn y Coleg hwnnw yn cael ei ddarparu i'r Coleg yn ganolog.</p> <p>12.3 Dosbarthwyd argymhellion ar gyfer prosiectau strategol newydd i'w cyllido gan y Coleg. Cymeradwywyd y rhestr gan y Bwrdd.</p> <p>12.4 Gan fod lechyd a Gofal yn feysydd blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, argymhellwyd bod y Coleg yn penodi Swyddog Pwnc lechyd a Gofal Cenedlaethol. Yn unol â'r model o gyflogi swyddogion pwnc mewn prifysgolion unigol (ond i weithio yn genedlaethol), cytunwyd y byddai'r Swyddog yn cael ei benodi drwy Brifysgol Caerdydd ond yn gweithio o dan gyfarwyddyd y Cofrestrydd. Cymeradwywyd hyn gan y Cyfarwyddwyr.</p>		
<b>13. Bwrdd Academaidd</b>	<p>13.1 Cafwyd crynodeb o gyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 8 Chwefror 2017 gan Dr Hefin Jones.</p> <p>13.2 Nodwyd bod y Bwrdd Academaidd wedi derbyn cyflwyniad yn y cyfarfod ym mis Chwefror, ar sut oedd gweithredu'r Cynllun Academaidd yn sgil y lansiad, gan gynnwys diweddariad manwl ar y materion cyllido.</p> <p>13.3 Nodwyd bod y Coleg wedi paratoi ymateb i holiadur y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.</p> <p>13.4 Derbyniwyd Polisi Cyhoeddi'r Coleg yn ystod y cyfarfod hwnnw. Nodwyd bod angen edrych ar y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi ac ystyried pa un a yw</p>		

	<p>yn atebol i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr neu i'r Bwrdd Academaidd.</p> <p>13.5 Gofynnwyd i Delyth Murphy baratoi strategaeth ar ehangu mynediad a chyfranogiad er mwyn gosod cyfeiriad, ac mi fydd yn cyflwyno hwn i'r Bwrdd Academaidd nesaf.</p> <p>13.6 Nodwyd bod y Prif Weithredwr a'r Deon wedi derbyn gwahoddiad gan y QAA i fod yn aelodau o banel i adolygu'r canllawiau ar gyfer asesu gwaith a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>13.7 Nodwyd bod Dr Hefin Jones hanner ffordd trwy ei daith i ymweld â'r sefydliadau Addysg Uwch.</p> <p>13.8 Nodwyd bod digwyddiadau cyd-sefydliadol sy'n dod â myfyrwyr cyfrwng Cymraeg at ei gilydd yn llwyddiant mawr.</p>		
<b>14. Marchnata a Chyfathrebu</b>	<p>14.1 Cafwyd cyflwyniad gan Catherine Rees ar y Cynllun Marchnata ar gyfer Ebrill 2017- Mawrth 2018 sy'n ymgorffori'r amcanion strategol.</p> <p>14.2 Nodwyd fod dau brif amcan sef (1) i gryfhau gwaith recriwtio a gweithio'n fwy rhanbarthol a (2) i weithio gyda disgyblion iau yr ysgolion o flwyddyn 9 ymlaen.</p> <p>14.3 Yn dilyn trafodaeth, cymeradwywyd y Cynllun Marchnata.</p>		

<p><b>15. Materion yn codi o Gyfarfod y Bwrdd, 23 Tachwedd 2016, nas deliwyd â hwy yn y cyfarfod.</b></p>	<p>Dim i'w adrodd.</p>		
<p><b>16. Adroddiadau gan Gyfarwyddwyr</b></p>	<p>Dim i'w adrodd.</p>		
<p><b>17. Unrhyw Fater Arall</b></p>	<p>17.1 Nododd y Cadeirydd mai dyma ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd y Coleg. Diolchwyd i aelodau'r Bwrdd am eu gwaith a'r cyfeillgarwch dros y blynyddoedd. Diolchwyd i staff y Coleg ar bob lefel.</p> <p>17.2 Diolchwyd i'r Cadeirydd ar ran y Cyfarwyddwyr am ei holl waith, ei gadeiryddiaeth ddoeth, bwyllog a thrylwyr a'r holl waith y tu ôl i'r llenni a thu allan i gyfarfodydd. Dymunwyd yn dda iddo.</p> <p>17.3 Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cadeirydd ar ran staff y Coleg. Ategwyd yr hyn a ddywedodd Linda Wyn am arweiniad doeth trwy gyfnod anodd, a'i fod wedi arwain y Coleg yn effeithiol dros ben mewn cyfnod allweddol iawn wrth bontio o'r cychwyn i'r cyfnod aeddfedu.</p>		
<p><b>18. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf</b></p>	<p>Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 21 Mehefin 2017, Y Brifysgol Agored, Caerdydd</li> </ul> <p>Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i staff Prifysgol Abertawe am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod.</p>		